

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Betsi Cadwaladr:

Ysbyty Glan Clwyd,

Adran Damweiniau ac

Achosion Brys

Dyddiad Arolygu: 15 – 16 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 21 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Methodoleg.....	2
Cyd-destun	5
Crynodeb.....	7
Canfyddiadau	8
Ansawdd Profiad y Claf	8
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	13
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
Y Camau Nesaf	22
Atodiad A.....	23

Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 15 ac 16 Tachwedd 2016. Yn arbennig, ymwelwyd â'r manau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Glan Clwyd

- Adran Damweiniau ac Achosion Brys
- Uned Feddygol Acíwt

Methodoleg


Mae amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu inni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bo'r sylw cynyddol a gynigir trwy ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal

o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad o Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleys. Roedd dau aelod pellach o staff AGIC yn bresennol yn ystod yr arolygiad at ddibenion datblygiadol mewnol.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

Cyd-destun

Agorwyd Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mehefin 2014. Mae'r adran ynghlwm wrth ysbyty cyffredinol prysur ac mae'n trin nifer fawr o gleifion.

Mae gan ambiwlansys fynedfa ar wahân i'r fynedfa sy'n cael ei defnyddio gan y rhai sy'n cerdded i mewn. Mae'r cleifion sy'n cerdded i mewn yn cael eu brysbennu¹ ar ôl iddynt gyrraedd a chânt eu gweld yn yr ardal glinigol sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion clinigol. Mae pedair ystafell driniaeth ar gael sy'n gyfagos i'r dderbynfa lle gallai claf gael ei weld gan y nyrs frysbenneu, gan ymarferydd nyrsio brys, neu gan feddyg.

Mae pedair cilfan ddadebru (gan gynnwys un ar gyfer cleifion pediatreg), wyth cilfan a dwy ystafell yn yr uned anafiadau difrifol, a saith cilfan yn yr uned mân anafiadau. Roedd gan yr uned mân anafiadau le wedi'i neilltuo ar gyfer cleifion sy'n gallu symud a allai fod yn aros am asesiad neu driniaeth bellach. Mae ystafell aros bediatrig ar wahân ar gyfer plant a thair ystafell wedi'u dynodi fel ystafelloedd pediatreg, ond sydd hefyd yn cael eu defnyddio fel manau ar gyfer cleifion sy'n oedolion pan fydd gormodedd.

Ynghlwm wrth yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys roedd nifer o unedau a gwasanaethau eraill.

- Mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau meddygon teulu wedi'i leoli wrth ymyl y dderbynfa. Mae meddyg teulu wedi'i leoli'n barhaol yma.
- Roedd gan uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ddeg cilfan (ond gyda'r staff ar gyfer wyth cilfan). Bwriad yr uned arsylwi oedd cadw cleifion yn unol â meini prawf llym am gyfnod o ddim mwy na 24 awr.
- Mae'r Uned Asesu Cyflym a'r Uned Feddygol Acíwt wedi'u lleoli gyda'i gilydd ac yn cynnwys 24 gwely ar gyfer yr Uned Feddygol Acíwt ac wyth gwely ar gyfer yr Uned Asesu Cyflym. Mae'r Uned Asesu Cyflym yn derbyn atgyfeiriadau uniongyrchol ar gyfer asesiad gan feddygon teulu

¹ Brysbennu cleifion yw'r broses o bennu blaenoriaethau wrth drin cleifion, gan seilio'r penderfyniadau ar ddifrifoldeb eu cyflwr.

ac mae'r Uned Feddygol Acíwt yn derbyn cleifion o'r Uned Asesu Cyflym a'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys er mwyn i feddyg ymgynghorol eu gweld.

- Mae Uned Asesiadau Llawfeddygol ynghlwm hefyd.

Wrth gyrraedd yn ystod diwrnod cyntaf yr arolygiad, ymddangosai fod yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn gymharol dawel. Roedd nifer fach o gleifion yn aros yn y dderbynfa i'w gweld ac roedd y monitorau teledu yn yr adran yn dangos mai'r amser aros ar gyfartaledd oedd dwy awr. Nid oedd ambiwlansys yn aros wrth y drws pan wnaethom gyrraedd. Roedd nifer o gilfannau ar gael yn yr ardal ddadebru ac roedd dwy gilfan ar gael yn yr uned mân anafiadau. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod yr adran yn brysur yn ymdopi â nifer o gleifion a oedd wedi bod yn yr adran ers peth amser oherwydd diffyg gallu i symud cleifion i leoliadau mwy priodol.

Ar gyfartaledd, mae'r adran yn trin tua 160 o gleifion y dydd.

Crynodeb

Yn ystod yr arolygiad, gwnaeth y cleifion a'u perthnasau a oedd yn derbyn gofal yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a'r Uned Feddygol Acíwt sylwadau cadarnhaol. Dywedodd pobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gyffredinol yn hapus gyda'r gofal a thriniaeth a ddarparwyd gan y timau staff. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn ystod dau ddiwrnod yr arolygiad yn darparu gofal a thriniaeth urddasol i gleifion mewn modd tosturiol a pharchus.

Ar y cyfan, roedd cleifion yn teimlo eu bod yn cael profiad da ac maent yn hapus gyda'u gofal. Mewn manau lle'r oedd cleifion yn aros i gael eu derbyn i ardal dderbyn briodol, roeddent yn profi oedi o ran cael cymorth yn ystod amserau bwyta a chyda thasgau byw bob dydd. Cydnabu'r cleifion fod y staff yn brysur.

Gwnaethom nodi bod yr amgylchoedd yn lân, yn daclus a'u bod wedi cael eu hailwampio'n ddiweddar. Ystyriwyd bod y staff yn broffesiynol a chyfeillgar yn eu dull.

Gwelwyd bod yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn darparu gofal brys a threfniadau brysbennu diogel ac effeithiol wrth i gleifion ddod i'r adran gyntaf. Fodd bynnag, nid oedd yn darparu'r un lefel o ofal yn uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Gwnaethom nifer o arsylwadau yn ystod ein harolygiad, a ddangosodd i ni nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom waith tîm amlbroffesiwn effeithiol. Gwelwyd bod gan yr adran arweinyddiaeth feddygol a nyrsio gref gyda chyfathrebu a pherthnasau proffesiynol da. Darparodd tîm rheoli safle'r ysbyty bresenoldeb cefnogol ar y safle yn ogystal â dull cydgysylltiedig effeithiol â gweddill uwch reolwyr y bwrdd iechyd.

Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Ar y cyfan, roedd cleifion yn teimlo eu bod yn cael profiad da ac maent yn hapus gyda'u gofal. Mewn mannau lle'r oedd cleifion yn aros i gael eu derbyn i ardal dderbyn briodol, roeddent yn profi oedi o ran cael cymorth yn ystod amserau bwyta a chyda thasgau byw bob dydd. Cydnabu'r cleifion fod y staff yn brysur.

Gwnaethom nodi bod yr amgylchoedd yn lân, yn daclus a'u bod wedi cael eu hailwampio'n ddiweddar. Ystyriwyd bod y staff yn broffesiynol a chyfeillgar yn eu dull.

Cadw'n iach

Mae pobl yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofawyr unigolion na allant ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Canfuom fod ystod o wybodaeth ar gael i gleifion i'w helpu i reoli eu hiechyd a lles eu hunain. Yn y dderbynfa, roedd arddangosfa ger y fynedfa'n darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol ychwanegol ar gael mewn ysbytai cymuned fel dewis arall i'r brif Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Roedd taflenni ar gael gyda manylion ynghylch brechiadau ffliw a sut i wella heb wrthfotigau. Roedd gwybodaeth ar gael am grwpiau cymorth megis grwpiau cerdded hefyd. Yn ogystal ag yn y dderbynfa, roedd ystod dda o wybodaeth ar gael yn yr Uned Feddygol Acíwt, gan gynnwys rhif ffôn yr adran, amserau ymweld ar gyfer perthnasau, a gwybodaeth i gleifion a pherthnasau.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigol. (Safon 4.1)

Gwelsom ofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn modd gofalgarg a thosturiol.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom siarad â chleifion a pherthnasau i geisio'u barn am eu profiad o ofal yn ystod eu hamser yn yr adran. Gwnaethpwyd hwn trwy sgysiau unigol a gwnaethom dderbyn deg holiadur wedi'u cwblhau hefyd. Ar y cyfan, dangosodd holiaduron y cleifion fod cleifion yn gadarnhaol iawn ynghylch y modd yr oeddent wedi cael eu trin gan y staff a'r gofal roeddent wedi'i dderbyn.

Roedd pobl yn derbyn gofal mewn amgylchedd glân a thaclus a oedd wedi cael ei ailwampio'n ddiweddar. Fodd bynnag, dywedodd rhai perthnasau nad oeddent bob amser wedi cael profiad da oherwydd y lleoedd parcio cyfyngedig gerllaw'r adran.

Roedd hi'n glir bod yr adran yn wynebu anawsterau'n symud cleifion o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i leoliad mwy priodol ar gyfer eu gofal. Gosododd hyn bwysau ar staff yr adran ac, ar brydiau, roedd y staff yn cael eu herio i gynnal urddas cleifion. Er enghraifft:

- Dywedodd un claf y gwelwyd ei fod yn galw am nyrs i'w helpu i fynd i'r toiled ei fod wedi bod yn aros am ddeng munud yn barod.
- Soniodd un claf ei fod wedi derbyn triniaeth mewn man aros bach am nad oedd cilfan ar gael.
- Lleisiodd un person bryder fod ei berthynas (y claf) yr oedd angen arni gyfleusterau cawod yn yr uned mân anafiadau wedi gorfod cael ei harwain ar hyd coridor cyhoeddus i uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys er mwyn gallu defnyddio cawod.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amgylchedd gofal a'r lefelau staffio yn ddigonol i sicrhau y gellir cyflenwi gofal gydag urddas.

Nodwyd mai dim ond dau doiled oedd ar gael i gleifion a pherthnasau yn ardal y dderbynfa ac roedd un ohonynt wedi torri ers dydd Llun. Pan fo'r adran yn arbennig o brysur, gallai hyn achosi problemau mynediad i gleifion a dylid mynd i'r afael â hyn yn brydlon.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfleusterau toiled ac ymolchi ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r adran.

Yn ystod ein hamser yn yr Uned Feddygol Acíwt, gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch yn gyson a bod yr amgylchedd yn cefnogi hyn trwy lety un rhyw a chyfleusterau *en suite* mewn wyth ciwbicl a chilfannau pedwar gwely.

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal sy'n hygyrch, yn ddealladwy, ac

mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion, er mwyn eu galluogi a'u cynorthwyo i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u gofal fel partner cydradd. (Safon 4.2)

Wrth gyfathrebu gyda phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2)

Ar y cyfan, roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n ystyried bod cyfathrebu gyda chleifion yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, roedd natur brysur yr adran wedi arwain at rai perthnasau'n teimlo'n anymwybodol o'r gofal a oedd wedi cael ei dderbyn gan gleifion drslyd yn ystod eu habsenoldeb. Er enghraifft, dywedodd un person fod ei berthynas wedi bod yn derbyn gofal dros nos, ond mewn dros bedair awr ers iddo gyrraedd yn y bore, nid oedd ei berthynas wedi cael cynnig y cyfle i ymolchi neu fynd i'r toiled. Sylwodd perthynas arall ar yr anhawster o ran cael gwybodaeth amserol am yr hyn fyddai'n digwydd nesaf megis yr amser y gallai ei berthynas ddryslyd gael ei chadw yn yr adran cyn cael ei derbyn i'r prif ysbyty.

Gwelsom fod system dolen sain ar gael, ond roedd arwydd i hysbysu'r cleifion ynghylch y system ar gael wrth un ddesg yn y dderbynfa yn unig ac felly nid oedd i'w weld yn glir. Gwnaethom nodi hefyd bod staff y gwnaethom siarad â nhw'n anymwybodol bod y system dolen sain ar waith.

Gwnaethom siarad â chlaf a oedd yn falch ei fod wedi cael y cyfle i gyfathrebu gyda'r staff nyrsio yn Gymraeg.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pobl (cleifion a pherthnasau) yn cael eu cefnogi i gyfathrebu i sicrhau dealltwriaeth eglur o'u cynllun triniaeth.

Gofal unigol

Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1)

Er bod cleifion yn derbyn asesiad unigol ac yn cael eu brysbennu'n gyflym ac yn amserol, roedd rhannau o'r asesiad nad oeddent yn adlewyrchu asesiad hollol unigol o'r gofal a thriniaeth angenrheidiol barhaus, o ystyried yr amser gwnaethant ei dreulio yn yr adran. Er enghraifft, pan nodwyd risgiau unigol, nid oedd y rhain bob amser yn cael eu hychwanegu at gynlluniau gofal unigol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pwyslais ar ofal unigoledig ar gyfer pob claf.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2)

Wrth gynnal trafodaethau â chleifion a pherthnasau, ni wnaethom glywed am unrhyw enghreifftiau o gleifion nad oeddent yn fodlon bod eu hawliau wedi cael eu cynnal.

Mae cofnodion hyfforddiant gorfodol yn dangos bod lefel uchel wedi cwblhau hyfforddiant mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, ond gwnaethom nodi bod hyfforddiant y nyrsys yn y maes hwn wedi aros ar 90% ers mis Gorffennaf 2016 yn dilyn gwelliannau yn gynharach yn y flwyddyn.

Fodd bynnag, dangosodd trafodaethau â'r staff ddiffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn arbennig o ran materion ynghylch y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a dim ond nifer fach o staff yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys oedd wedi cwblhau hyfforddiant penodol yn y maes hwn. Mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i gleifion dderbyn gofal yn yr adran am gyfnodau hirach o amser.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff i gyd yn derbyn hyfforddiant ac yn hollol ymwybodol o'u rhwymedigaethau i ddiwallu safonau cydraddoldeb, hawliau dynol ac o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai a ddarparodd eu gofal, fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3)

Gwelsom fod taflenni ar gael mewn nifer o leoliadau yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i alluogi'r cleifion i roi adborth am y gofal roeddent wedi'i dderbyn. Gwelsom fod gwybodaeth am y broses "Gweithio i Wella" ar gael i gleifion a oedd yn dymuno gwneud cwyn am y gwasanaeth.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym gan un claf ei fod wedi cyflwyno cwyn ym mis Gorffennaf 2015 a'i fod dal heb dderbyn ateb boddhaol i ddangos unrhyw ddatrysiad ar gyfer ei bryderon.

Hefyd, yn ystod yr arolygiad, dim ond tri o'r wyth aelod o staff a gwblhaodd ein holiadur oedd yn ymwybodol bod adborth cleifion yn cael ei gasglu a dim ond tri a ddywedodd fod diweddariadau ar brofiad y claf yn cael eu cyfathrebu â'r adran. Nid oedd yr un ohonynt yn gallu cadarnhau bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau yn yr adran.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn casglu ac yn gwranddo ar adborth cleifion a bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiadau mewn gofal.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelwyd bod yr adran yn darparu gofal brys a threfniadau brysbennu diogel ac effeithiol wrth i gleifion ddod i'r adran gyntaf. Fodd bynnag, nid oedd yn darparu'r un lefel o ofal yn uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Gwnaethom nifer o arsylwadau yn ystod ein harolygiad a ddangosodd i ni nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro ac, os oes modd, eu lleihau a'u hatal. (Safon 2.1)

Gwnaethom nodi bod y gofal uniongyrchol a brys a ddarparwyd gan yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn dda. Roedd ystafelloedd triniaeth yn gyfagos at ardal dderbynfa'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac roedd nyrsys yn brysbennu ac ymarferwyr nyrsio brys a meddygon yn rhoi triniaeth yn yr ardal hon. Er nad oedd unrhyw gleifion yn aros mewn ambiwlansys ar ddiwrnod yr arolygiad, dywedwyd wrthym, pan fo hyn yn digwydd, y byddai'r cleifion yn cael eu hasesu a'u blaenoriaethu unwaith iddynt gyrraedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Fodd bynnag, yr her graidd y mae'r adran yn ei hwynebu yw'r ffaith bod cleifion yn aros yn hirach yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys nag y dylent, oherwydd anawsterau o ran dynodi capasiti gwelyau mewn man arall o'r ysbyty pan fydd angen iddynt gael eu derbyn.

O ganlyniad i hyn, nid yw asesiadau risg llawn, a fyddai'n cael eu cwblhau pan fyddai cleifion fel arfer yn cael eu derbyn ar ward pe bai gwely ar gael, yn cael eu cychwyn wrth i gleifion aros yn hirach yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Er bod rowndio bwriadol yn digwydd yn uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i ddarparu gofal yn gyson, gwnaethom arsylwi bod yr oedi o ran cwblhau asesiadau risg llawn o risgiau ac anghenion cleifion unigol yn oedi ymyriadau gofal priodol; trafodir ymhellach y rhai sy'n ymwneud â meysydd megis maetheg, rhwystro syrthiadau, a niwed i'r meinwe isod.

Mae angen i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ystyried sut y mae'n asesu a rheoli risg yn effeithiol ar gyfer y bobl sy'n aros yn hirach na'r disgwyl.

Yr her ar gyfer y bwrdd iechyd yn y tymor hirach yw edrych yn ofalus ar gapasiti ehangach yr holl system i ddiwallu anghenion cleifion mewn cydweithrediad â phartneriaid mewn gofal cymdeithasol.

Mae pobl yn cael cymorth i ofalu am eu croen, a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwysedd a niwed i'r meinwe. (Safon 2.2)

Canfuom nad oedd asesiad manwl a chofnodi materion yn ymwneud â niwed mannau pwysu'n digwydd fel mater o drefn wrth i gleifion gael eu derbyn. Amlygir hyn yn yr astudiaeth achos ganlynol.

"Derbyniwyd claf i'r Uned Feddygol Acíwt yn ystod oriau mân y bore wedi iddo fod yn yr adran am dros saith awr yn barod. Ni chwblhawyd siart ysgerbydol nac asesiad risg llawn tan iddo gael ei dderbyn yn yr Uned Feddygol Acíwt. Roedd gan y claf niwed pwysedd Gradd 1. Ni chofnodwyd ym mhle y cafwyd y niwed pwysedd. Cafodd hyn ei adrodd trwy DATIX, ond yn anffodus ni chafwyd unrhyw gamau dilynol ac nid oedd matres rhyddhau pwysedd ar waith ar ôl iddo fod yn yr Uned Feddygol Acíwt am naw awr."

Mae'n bwysig, pan nodir bod cleifion mewn perygl o niwed i fannau pwysu, bod gofal ac ymyriadau priodol ac amserol yn cael eu cyflawni.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu hasesu ar gyfer eu risg o ddatblygu niwed i fannau pwysu a bod gofal ac ymyriadau priodol ac amserol yn digwydd.

Mae pobl yn cael asesiad risg cwmpo a gwneir pob ymdrech i atal cwympiadau a lleihau niwed ac anabledd y gellir eu hosgoi. (Safon 2.3)

Gwelsom nad oedd asesiadau risg yn digwydd ledled yr adran. Er i ni nodi o drafodaethau â'r rheolwyr fod hyn wedi bod yn weithgarwch ffocws ar gyfer y rheolwyr a staff, ni welsom dystiolaeth o hyn mewn cynlluniau gofal unigol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu hasesu'n briodol ar gyfer risgiau o syrthio a bod camau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen.

Mae angen i'r camau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn effeithiol fod yn fusnes i bawb, a rhaid iddynt fod yn rhan o arferion dyddiol ym maes gofal iechyd ac wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, fel bod pobl yn cael eu gwarchod rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. (Safon 2.4)

Ar y cyfan, roedd yr adran yn lân ac yn daclus.

Yn yr Uned Feddygol Acíwt yn arbennig, gwelsom dystiolaeth o archwiliadau glanhau ac roedd gwybodaeth y gallai'r cyhoedd ei gweld am achosion o heintiau wedi'i chyflwyno ar yr hysbysfwrdd. Mae hyfforddiant gorfodol staff yn yr ardal hon hefyd yn cael ei fonitro'n weithredol.

Ymddangosai fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn rhwydd ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Gwelsom fod nodiadau gweladwy i atgoffa pobl am bwysigrwydd hylendid dwylo ac, yn gyffredinol, gwelwyd bod y staff yn defnyddio strategaethau priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Fodd bynnag, gwelsom ddau aelod o staff yn mynd i mewn i ystafell lle'r oedd claf yn derbyn nyrsio rhwystrol² ar ddau achlysur heb ymgymryd â rhagofalon priodol a defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir. Hysbyswyd prif nyrs y ward am hyn ar unwaith, a deliodd â'r sefyllfa fel yr oedd yn briodol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn glynu wrth God Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau.

Mae pobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth a hydradu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5)

² *Caiff rhagofalon ychwanegol eu rhoi ar waith i rwystro heintiau rhag lledaenu. Mae'r math hwn o ofal nyrsio yn cael ei gyflawni trwy roi'r claf mewn ystafell sengl neu ystafell ochr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau. Mae dau fudd i wisgo cyfarpar diogelu personol: mae'n amddiffyn y cleifion a'r sawl sy'n gofalu amdanynt.*

Canfuom nad oedd yr amserau bwyd ar gyfer cleifion yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi'u cyd-drefnu'n dda. Gwnaeth rhai cleifion yr oedd angen arnynt gymorth i fwyta brofi oedi sylweddol o ran cael cymorth. Gwnaethom uwchgyfeirio hyn yn ystod ein harolygiad a datryswyd y broblem gan y tîm nyrsio. Er i'r droli fwyd gyrraedd yr adran rhwng 11.30am a hanner dydd, gwnaethom nodi oedi o hyd at 50 munud cyn i fwyd gael ei ddarparu.

Amlygodd ein cyfweiliadau â chleifion hefyd nad oedd y cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn derbyn eu prydau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amserau bwyd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, yn arbennig uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, yn cael eu cyd-drefnu a bod cleifion yn derbyn prydau a chymorth i fwyta, yn ôl yr angen, mewn da bryd.

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6)

Gwnaethom wirio'r systemau ar gyfer storio, cofnodi a gweinyddu meddyginiaeth i raddau amrywiol mewn nifer o rannau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Gwelsom rywfaint o arfer da, yn arbennig mewn perthynas â'r system electronig newydd.

Fodd bynnag, nid oeddem yn sicr bod y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn gadarn ledled yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae materion penodol a welsom yn mhob un o'r ardaloedd isod.

Uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys

- Canfuom fod un nyrs gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd yn llofnodi am y cyffuriau a reolir yn hytrach na dwy nyrs gofrestredig fel sy'n ofynnol.
- Gwnaethom nodi nad oedd dau o gleifion wedi derbyn eu meddyginiaeth ofynnol yn amserol oherwydd oedi wrth ragnodi yn Siart Gymru Gyfan. Roedd un o'r cleifion hyn wedi colli dau ddos o gyffur ar gyfer rheoli ei gyflwr hirdymor; nid oedd ail glaf wedi derbyn ei bresgripsiwn am dros 24 awr.
- Nid oedd mewnbyn ac allbyn hylif claf arall a oedd yn derbyn hylifau mewnwythiennol yn cael eu monitro.

Uned Feddygol Acíwt ac Uned Asesu Cyflym

- Gwelsom ddau glaf heb fandiau adnabod amdanynt.

- Gwnaethom nodi bod anghysondeb yn y broses o gwblhau gwiriadau dyddiol o gyffuriau a reolir. Yr un oedd yr achos ar gyfer y broses o gwblhau gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell, nad oedd proses na chanllawiau ffurfiol ar waith ar ei chyfer.
- Nid oedd y drws i'r ystafell feddyginiaeth ar glo. Er bod y cwpwrdd a'r oergell wedi eu cloi, roedd meddyginiaeth cleifion allan ar fwrdd gwaith.

Ardal Môn Anafiadau

- Gwelsom glaf a oedd yn derbyn hylif a meddyginiaeth fewnwythiennol heb fand adnabod ar ei arddwrn.

Roedd talfyriadau lleol yn cael eu defnyddio ym mhob ardal ledled yr adran, megis "Px" i olygu presgripsiwn a "Pxd" i olygu wedi rhagnodi. Derbyniwyd nad oedd y rhain yn dalfyriadau ffurfiol a bod ganddynt y potensial i achosi penbleth yn arbennig ymhlith y staff asiantaeth a ddefnyddir.

Gwnaethom uwchgyfeirio'r holl faterion uchod yn ystod ein harolygiad a chawsant sylw ar unwaith.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisiau'r bwrdd iechyd a rhai cenedlaethol ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau'n cael eu cymhwyso wrth ymarfer ar bob amser.

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7)

Trwy asesiad, dyfarnwyd bod yr adran yn darparu safon dda o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

Roedd ystafell aros bediatrig ar wahân ac ystafelloedd triniaeth ar wahân ar gael. Er bod gan yr adran fynediad at un nyrs bediatrig yn unig, adroddwyd bod gan nyrsys eraill hyfforddiant uwch mewn cynnal bywyd pediatrig a bod yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn gallu tynnu ar sgiliau a gwybodaeth Adran Bediatrig y prif ysbyty.

Dangosodd cofnodion hyfforddiant ar gyfer yr adran fod dros 90% o'r staff yn gyfredol gyda'u hyfforddiant mewn diogelu oedolion a diogelu plant.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac ychwanegu at y tîm staff sydd â hyfforddiant pediatrig arbenigol.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1)

Gwnaethom nodi nifer o faterion yn ystod yr arolygiad a oedd yn dangos nad oedd cleifion yn derbyn y gofal iawn i ddiwallu eu hanghenion unigol ac nad oedd gofal, triniaeth a phenderfyniadau o'r fath yn cael eu dogfennu'n briodol. Yn arbennig, gwnaethom nodi'r canlynol yn yr ardal mân anafiadau:

- Ystyriwyd bod pedwar claf mewn perygl a bod angen siartiau cydbwysedd hylif arnynt.
- Nid oedd siartiau cydbwysedd hylif yn cael eu cwblhau bob amser.
- Nid oedd gan un claf fand adnabod, ond roedd yn derbyn hylif a meddyginiaeth fewnwythiennol.
- Roedd un claf yn ddiabetig, ond nid oedd lefel siwgr ei waed wedi cael ei monitro, ei chofnodi na'i hailasesu ers y cofnod a gymerwyd yn yr ambiwlans.

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd dau glaf pellach yn yr Uned Feddygol Acíwt yn gwisgo bandiau adnabod am eu breichiau.

Yn yr Uned Feddygol Acíwt, roedd diffyg ymwybyddiaeth o siart hylif wythnosol Cymru gyfan ac ni chanfuom fod yr uned yn ei defnyddio.

Mae'n bwysig bod anghenion cleifion ar gyfer monitro a gofal parhaus yn cael eu cydnabod a'u diwallu.

Mae'r meysydd penodol a ganfuom yn ystod yr arolygiad yn cynnwys: Yr angen i sicrhau bod cydbwysedd hylif yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n effeithiol, bod glwcos gwaed cleifion sydd â diabetes yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n effeithiol, a bod cleifion sy'n derbyn gofal a meddyginiaeth yn cael eu hadnabod yn ddiogel trwy weithdrefnau adnabod cadarnhaol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gofal, triniaeth a phenderfyniadau unigol yn adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a bod gofal a thriniaeth cleifion unigol yn cael eu dogfennu'n effeithiol.

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl

gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol. (Safon 3.5)

Gwnaethom edrych ar gyfres o gofnodion cleifion yn yr uned anafiadau difrifol, yr uned mân anafiadau ac uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, yn ogystal â chyfres yn yr Uned Feddygol Aciwt.

Ar y cyfan, cwblhawyd y cofnodion mewn da bryd ac roeddent yn ddarllenadwy. Gwelwyd bod asesiadau poen wedi'u monitro a'u cofnodi'n dda. Fodd bynnag, cododd nifer o faterion yn sgil yr adolygiadau:

- Mewn nifer o achosion, gwnaethom nodi anghysondebau o ran defnyddio siartiau monitro hylif, ac roedd angen uwchgyfeirio'r rhain i staff.
- Roedd arferion rowndio bwriadol yn anghyson: roedd yr uned anafiadau difrifol yn arfer rowndio bwriadol, yn uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys roedd rowndio bwriadol yn dechrau ar ôl barn glinigol, ac yn yr uned mân anafiadau dywedwyd wrthym fod rowndio bwriadol wedi cael ei ddefnyddio, ond nid oedd hyn yn y dogfennau.
- Canfuom, er bod claf â sepsis yn yr ardal anafiadau difrifol wedi derbyn gofal priodol, nad oedd y bwndel sepsis wedi cael ei sbarduno.

Nododd yr adolygiadau'r diffyg asesiadau risg cleifion mwy cynhwysfawr y byddid yn eu disgwyl ar gyfer arosiadau hirach fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn y gofal iawn i ddiwallu eu hanghenion unigol a bod yr holl gofnodion yn cael eu cynnal yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom waith tîm amlbroffesiwn effeithiol. Gwelwyd bod gan yr adran arweinyddiaeth feddygol a nyrsio gref gyda chyfathrebu a pherthnasau proffesiynol da. Darparodd tîm rheoli safle'r ysbyty bresenoldeb cefnogol ar y safle yn ogystal â dull cydgysylltiedig effeithiol â gweddill uwch reolwyr y bwrdd iechyd.

Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. (Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2, Tudalen 8)

Roedd arweinyddiaeth feddygol a nyrsio eglur yn yr adran. Yn ystod trafodaethau ag amrywiaeth o reolwyr a staff, dywedwyd wrthym fod ganddynt berthnasau proffesiynol da a gwelsom waith tîm amlbroffesiwn effeithiol. Dywedodd staff domestig wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn yr adran a'u bod yn teimlo fel rhan o'r tîm. Roedd llinellau atebolrwydd a dirprwyo clir ar gyfer staff, a gwnaethant ddisgrifio'r rhain yn rhwydd i'r tîm arolygu ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus yn gweithio dan yr amodau hyn.

Mae gan yr adran arweinydd Ansawdd a Diogelwch ac arweinydd Datblygu Arferion sy'n gweithio gyda'r holl staff yn yr adran ac yn cefnogi ac yn gweithio gyda'r rheolwyr i symud yr agenda ansawdd, diogelwch a safonau proffesiynol yn ei blaen. Mae'r adran yn cynnal cyfarfodydd ansawdd a diogelwch a chyfarfodydd rheoli rheolaidd, sy'n cyfrannu at drefniadau llywodraethu bwrdd yr ysbyty a'r bwrdd iechyd.

Canfu ein harolygiad er bod gan y bwrdd iechyd bolisïau a gweithdrefnau ar waith, nid oeddent i gyd yn cael eu cymhwyso'n gyson ar bob amser gan yr holl staff wrth iddynt ymarfer.

Mae'r Cyfarwyddwr Clinigol yn cymryd yr awenau ar gŵynion ac mae tîm rheoli'r ysbyty'n cydnabod bod mwy i'w wneud i wella'r modd yr ymdrinnir â chŵynion. Yn wir, dywedodd un claf wrthym ei fod wedi cyflwyno cwyn ym mis Gorffennaf 2015 a'i fod dal heb dderbyn ateb neu ddatrysiaid boddhaol ar gyfer y pryderon a godwyd ganddo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymdrin â phob pryder a chwyn yn gyflym a gweithredu canllawiau 'Gweithio i Wella' Cymru gyfan yn effeithiol.

Yn yr adran, mae'r arweinydd ansawdd a diogelwch wedi datblygu un cynllun gwella sy'n dod â'r holl themâu o ddigwyddiadau a chwynion ynghyd gan sicrhau bod dysgu'r tîm a datblygiad y gwasanaeth yn cymryd sylw o'r hyn a ddysgwyd. Fodd bynnag, mae'r tîm adrannol yn cydnabod bod hwn yn fater o waith parhaus a bod angen iddo barhau i gael ei ymgorffori yn y gwaith o ddydd i ddydd.

Roedd tystiolaeth bod cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch yn cael eu cyfathrebu gan y staff yn ystod adeg trosglwyddo sifftiau.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu anghenion. (Safon 7.1)

Gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd ym mhob ardal ar wahân i uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i ddiwallu anghenion y cleifion. Mae staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n rheolaidd a gwelsom y dylai fod defnydd gwell o gymysgedd sgiliau wedi bod, gyda chydbwysedd o staff parhaol a staff asiantaeth, i osgoi sefyllfa lle byddai staff asiantaeth wrth yr awenau mewn ardal ar eu pennau eu hunain, megis uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Yn uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, roedd yn arferol i'r adran roi un nyrs gofrestredig ar ddyletswydd gydag un gweithiwr cymorth anghofrestredig yn yr ardal hon lle mae gan gleifion anghenion tymor hirach ac yn aml angen cymorth gan ddau aelod o staff i helpu â'u gweithgareddau byw bob dydd megis bwyta ac yfed a defnyddio'r toiled. Cawsom afael ar gofnodion rotâu staffio, a wnaeth gadarnhau bod yr adran wedi'i staffio i'r lefelau y cytunwyd eu bod yn dderbyniol gan uwch reolwyr. Fodd bynnag, o'r canfyddiadau yn ystod yr arolygiad yn uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, mae AGIC wedi argymhell bod y bwrdd iechyd, ynghyd â'r nyrs â gofal yn yr ardal hon, yn adolygu'r lefelau staffio gan ddefnyddio dull aciwtedd er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau staffio uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i sicrhau bod anghenion yr holl gleifion yn yr ardal hon yn cael eu diwallu ar bob amser.

Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y bwrdd iechyd.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pryd bydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Glan Clwyd

Ward / Adran: Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac Uned Meddygaeth Acíwt

Dyddiad yr arolygiad: 15 ac 16 Tachwedd 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd profiad y claf			
9	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amgylchedd gofal a'r lefelau staffio'n ddigonol i allu darparu gofal urddasol.</i>	Bydd y nyrs â gofal yn craffu'n ddyddiol ar lefelau staffio'r uned i sicrhau staffio diogel a chyfartal gan y nyrsys ar draws pob rhan o'r adran.	Y Nyrs â Gofal	Bob dydd
		Craffu'n fisol ar yr e-amserlen i sicrhau cydymffurfiaeth o ran gwyliau blynyddol, absenoldeb astudio, absenoldeb salwch, amodau gwaith, ac oriau a gollwyd neu nas defnyddiwyd.	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth	Misol

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cynnal adolygiad o gymysgedd sgiliau a meincnodi'r cymysgedd sgiliau yn erbyn dull aciwtedd arfer gorau y cytunwyd arno ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys i sicrhau bod y staff cywir ar gael, yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir.	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth	30/04/2017
		Rhoi gwasanaeth cadw tŷ ar waith saith diwrnod yr wythnos i sicrhau bod amser nyrsio craidd yn cael ei ryddhau drwy gynnal lefelau stoc graidd a darparu cymorth gydag atal a rheoli heintiau.	Metron	01/04/2017
9	<i>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau toiled ac ymolchi'n briodol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r adran.</i>	Cafodd y toiledau a'r cyfleusterau ymolchi eu cynllunio a'u dylunio o fewn yr adran damweiniau ac achosion brys i HBN-22 (Cyfleusterau i Oedolion a Phlant). Nodwyd bod darpariaeth cawod ychwanegol i gleifion wedi'i hychwanegu at gynllun gwaith yr ystad i'w chwblhau.	Pennaeth Ystadau	01/06/2017
10	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pobl (cleifion a pherthnasau) yn derbyn cefnogaeth i gyfathrebu er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'u rhan yn y cynllun</i>	Adolygu'r holl ddogfennaeth ar gyfer derbyniadau a rowndiau bwriadol i adnabod y cyfle i atgyfnerthu cyfathrebu effeithiol gyda chleifion a pherthnasau i sicrhau dealltwriaeth glir o'u rhan yn y cynllun triniaeth – a darparu unrhyw	Pennaethiaid Nyrsio Metron	30/03/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>triniaeth.</i>	argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd.		
		Gosod byrddau cyfathrebu uwchben gwelyau'r cleifion yn nodi'n glir enw nyrs a doctor y claf, hoff enw'r claf, anghenion dietegol y claf, ward mynediad ddisgwyliedig, a/neu ddyddiad rhyddhau/trosglwyddo disgwyliedig.	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth	30/03/17
		Glynu at ymgyrch 'Helô, fy enw i yw...' i'w fonitro'n fisol gan y fetron, archwiliadau ansawdd a diogelwch, a phob ymweliad i'r ardaloedd clinigol.	Metron Uwch-dîm Arwain	Misol 01/03/2017
		Ffurfioli Safonau Cyfathrebu disgwyliedig yr adran a darparu canllaw ar gyfer y cyhoedd, mewn cydweithrediad â defnyddwyr y gwasanaeth, i gleifion a pherthnasau o ran beth i'w ddisgwyl, a darpariaeth y gwasanaethau yn yr adran frys.	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth Ymgynghorydd Arwain ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth	1/05/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Darparu <i>Pecyn Dysgu 10 Munud ar Arolygiad AGIC o Ysbyty Glan Clwyd 2016</i> i'r holl staff i'w hatgoffa o ganfyddiadau'r arolygiad a'r meysydd sydd angen eu gwella. I'w ddsbarthu drwy friff diogelwch yr adran/ward, sy'n digwydd tair gwaith y dydd.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth</p> <p>Ymgynghorydd Arwain ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys</p>	<p>01/03/2017</p>
		<p>Sefydlu cynllun peilot ar y cyd â'r Groes Goch Brydeinig yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i ddarparu cynllun ymgyfeillio a chynllun ysbyty yn y cartref.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth</p>	<p>1/03/2017</p>
		<p>Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwyllo cwblhau cynllun gwella AGIC a darparu adroddiadau misol i'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyfarfod ansawdd a diogelwch Ysbyty Glan Clwyd 2. Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Is-adran Gofal Eilaidd 	<p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth</p>	<p>28/02/2017</p> <p>Adroddiadau Misol i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Gofal Eilaidd Ysbyty Glan Clwyd</p>

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pwyslais ar ofal unigoleddig ar gyfer yr holl gleifion.</i>	Atgoffa'r holl staff yn y sesiynau briffio ar ddiogelwch fod yr holl gleifion i gael asesiad risg a bod amlder y rowndiau bwriadol i gael ei nodi'n glir o fewn un awr iddynt gyrraedd.	Y Nyrs â Gofal	Cwblhawyd 01/12/2016
		Monitro drwy'r asesiadau sicrhau ansawdd bod asesiadau risg y cleifion wedi'u cynnal a bod amlder y rowndiau bwriadol wedi'i nodi'n glir, a glynu at hynny, i sicrhau bod anghenion gofal unigol wedi'u nodi a'u diwallu.	Metron	Archwilio 30/01/2017 Bob wythnos – i barhau am bedair wythnos ar ôl cyrraedd cydymffurfiaeth 100%
		Bydd pencampwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu nodi ar gyfer yr adran (lleiafrif o ddau).	Metron	30/01/2017
		Cynnal asesiad a dadansoddiad o'r bylchau o ran safonau cydraddoldeb a hawliau dynol cyfredol yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan Bennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.	Pennaeth Cydraddoldeb	01/03/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ac yn llawn ymwybodol o'u rhwymedigaeth i gynnal safonau cydraddoldeb a hawliau dynol a'r safonau sydd ynghlwm wrth y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.</i>	<p>Mae angen i'r nyrs datblygu ymarfer yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol i nodi staff meddygol a nyrsio sydd angen hyfforddiant mewn perthynas â'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.</p> <p>Darparu hyfforddiant ar y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid i'r holl staff meddygol a nyrsio a nodwyd yn y dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol. Adroddiad misol ar gynnydd mewn hyfforddiant i'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Glan Clwyd 2. Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Is-adran Gofal Eilaidd 	<p>Nyrs Datblygu Ymarfer</p> <p>Nyrs Datblygu Ymarfer</p>	<p>01/02/2017</p> <p>Cyrraedd cydymffurfiaeth 100% erbyn 30/06/2017</p>
12	<i>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn casglu ac yn gwrando ar adborth y cleifion a bod hynny'n cael ei ddefnyddio i gyfarwyddo datblygiadau mewn gofal.</i>	<p>Cyflwyno system adborth cleifion ar y pryd ar draws y bwrdd iechyd erbyn 1 Gorffennaf 2017 i gasglu profiad y claf.</p> <p>Cydweithio â'r tîm Profiad y Claf a gwahodd cynrychiolydd y claf fel aelod craidd o'r cyfarfod misol i Reoli a Llywodraethu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys (SAGE) er mwyn:</p>	<p>Pennaeth Profiad y Claf</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth</p>	<p>01/07/2017</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>1. Meithrin diwylliant o gyfranogiad cleifion</p> <p>2. Sicrhau bod lleisiau cleifion yn cael eu clywed a bod eu safbwyntiau'n dylanwadu'n gadarnhaol ar y gwaith a wnawn.</p> <p>Rhannu dyddiadau cyfarfodydd SAGE yn y dyfodol i'r holl staff drwy hysbysfwrdd y staff, cyfrifon e-bost y staff a chyfrif Twitter, ac annog staff i fynychu a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn sgil digwyddiadau sy'n effeithio ar ddiogelwch a phrofiad cleifion.</p>	Ymgynghorydd Arwain ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys	Misol 30/01/2017
		Darparu adroddiadau eithriadau misol SAGE i gyfarfod ansawdd a diogelwch Ysbyty Glan Clwyd.	Ymgynghorydd Arwain ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys Pennaeth Nyrsio	Misol 30/01/2017
		<p>Ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol gyda chleifion a pherthnasau drwy ddangos adborth yn gyhoeddus i ddangos bod yr adran yn gwrando ac yn gweithredu. Cyflawnir hyn drwy:</p> <p>1) Cylchlythyr chwarterol yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a fydd ar gael yn yr holl ardaloedd cyhoeddus</p>	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth	30/06/2017 28/02/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		2) Bocsys awgrymiadau cleifion/perthnasau 3) Byrddau gwybodaeth " <i>Dywedoch chi, gwnaethom ni...</i> " sy'n cael eu diweddarau bob mis.		30/03/2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
14	<i>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu hasesu ar gyfer eu risg o ddatblygu briwiau pwyso, ac y darperir gofal a thriniaeth briodol ac amserol.</i>	Gweithredu Asesiad Unedig (wedi'i ddiwygio) ar draws holl adrannau damweiniau ac achosion brys y bwrdd iechyd. Bydd yr holl gleifion sy'n mynychu'r adran yn derbyn: 1) Asesiad cychwynnol o anghenion lefel uchel o fewn awr o gyrraedd gan nodi amlder rowndiau bwriadol yn eglur 2) Yr Asesiad Unedig o angen wedi'i addasu o fewn pedair awr o gyrraedd 3) Asesiad llawn o anghenion unigol o fewn 12 awr o gyrraedd	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio Y Nyrs â Gofal	30/03/2017 30/03/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd y cyfarwyddwyr nyrsio cynorthwyol yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o rowndiau ansawdd yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys ar draws y bwrdd iechyd.	Cyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyol	Chwarterol 01/03/2017
		Metronau i gynnal archwiliad gan gymheiriaid o asesiadau mannau pwysu a rhoi Llwybr Gofal Integredig Mannau Pwysu Cymru Gyfan ar waith.	Metron	Misol 01/03/2017
		Sefydlu Gweithdrefn Weithredu Safonol i sicrhau bod gan y staff fynediad uniongyrchol a phriodol at yr offer rhyddhau pwysedd 24 awr y dydd.	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth	30/03/2017
14	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael ei asesu'n briodol ar gyfer y risg o gwmpo a chymryd camau gweithredu, fel y bo angen.</i>	Mae angen cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol gan nyrs datblygu ymarfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i adnabod staff sydd angen hyfforddiant o ran cwmpadau.	Nyrs Datblygu Ymarfer	01/03/2017
		Darparu hyfforddiant ar gwmpadau i'r holl staff a nodwyd drwy'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol. Bydd cynnydd mewn hyfforddiant yn cael ei adrodd bob mis i'r	Nyrs Datblygu Ymarfer	Cyrraedd cydymffurfiaeth 100% erbyn

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Glan Clwyd 2. Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Is-adran Gofal Eilaidd 		30/06/2017
		<p>Bydd yr holl gleifion sy'n mynychu'r adran yn derbyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Aseiad cychwynnol o anghenion lefel uchel o fewn awr o gyrraedd gan nodi amlder rowndiau bwriadol yn eglur 2. Aseiad Unedig o angen wedi'i addasu o fewn pedair awr o gyrraedd 3. Aseiad llawn o anghenion unigol o fewn 12 awr o gyrraedd 	Y Nyrs â Gofal	30/03/2017
		Bydd y cyfarwyddwyr nyrsio cynorthwyol yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o rowndiau ansawdd yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys ar draws y bwrdd iechyd.	Cyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyol	Chwarterol 01/03/2017
		Metronau i gynnal archwiliad gan gymheiriaid o asesiadau risg cwmpo a gweithredu'r llwybr gofal cwmpadau.	Metronau	Misol 01/03/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Lansio Polisi Cwmpiadau diwygiedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Tachwedd 2016.	Cyfarwyddwr Ardal ar gyfer Gwasanaethau Clinigol (canolog)	Cwblhawyd
		Lansio Llwybr Gofal Cwmpiadau diwygiedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Rhagfyr 2016 i fanylu ar asesiadau ac ymyriadau'r holl gleifion.	Cyfarwyddwr Ardal ar gyfer Gwasanaethau Clinigol (canolog)	Cwblhawyd
15	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd gydymffurfio â Chod Ymarfer Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.</i>	Gweithredu a monitro cynllun gwella atal heintiau lleol drwy grŵp atal heintiau lleol.	Y Tîm Atal Heintiau	Cwblhawyd
		Cydymffurfiaeth o ran deg safon allweddol yn weladwy i'r cyhoedd ac yn y fynedfa i bob ward/ardal glinigol.	Rheolwr y Ward Y Nyrs â Gofal	Cwblhawyd
		Bydd adroddiadau eithrio chwarterol ar atal heintiau yn Ysbyty Glan Clwyd yn cael eu cyflwyno i Grŵp Atal Heintiau Strategol y bwrdd iechyd ac yn nodi meysydd o arfer da a meysydd sydd angen eu gwella.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio	Chwarterol

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cerdded o gwmpas i atal heintiau bob wythnos gan dynnu sylw at unrhyw faterion brys a gweithredu arnynt.	Y Tîm Atal Heintiau	Bob wythnos
		Dylai'r nyrs â gofal gynnal archwiliadau comôd bob dydd i sicrhau cydymffurfiaeth 100% yn erbyn y safonau atal heintiau.	Y Nyrs â Gofal	Bob dydd
15	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amseroedd prydau bwyd yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, yn arbennig yn ardal yr uned arsylwi, yn gydgysylltiedig, a bod cleifion yn derbyn prydau bwyd a chymorth i fwyta, pan fo angen, yn amserol.</i>	Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i osod safonau maeth i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> 1) Disgwylir i'r holl staff nyrsio gynorthwyo adeg prydau bwyd y cleifion 2) Penodir aelod dynodedig o staff bob dydd, wedi'i ddirprwyo gan y nyrs â gofal, i fod yn gyfrifol am oruchwylio dosbarthu prydau bwyd yn amserol 3) Nodir yr holl gleifion sydd angen cymorth ar adegau trosglwyddo a chynigir cymorth iddynt 4) Dull effeithiol o gasglu prydau gan berthnasau cleifion pan fo hynny'n briodol 	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth Pennaeth Arlwyo	16/02/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
16	<i>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y polisiau cenedlaethol a pholisiau'r bwrdd iechyd ar gyfer pob agwedd o reoli meddyginiaeth ar waith bob amser.</i>	Bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol yn cael ei gynnal gan nyrs datblygu ymarfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i adnabod staff sydd angen hyfforddiant rheoli meddyginiaeth o ran yr Ail Wiriwr.	Nyrs Datblygu Ymarfer	1/03/2017
		Darparu hyfforddiant Ail Wiriwr wedi'i achredu i staff a nodwyd drwy'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant i sicrhau bod polisiau lleol a chenedlaethol yn cael eu gweithredu'n gyson o ran rheoli meddyginiaeth.	Nyrs Rheoli Meddyginiaethau	1/06/2017
		Hysbysiad Atal wedi'i nodi ac ar waith o fis Tachwedd 2016 i sicrhau nad oes gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ailwrio meddyginiaethau tra bod y Cod Meddyginiaethau yn cael ei adolygu.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio	Cwblhawyd
		Gwiriadau dirybudd bob wythnos i sicrhau cydymffurfiaeth 100% am bedair wythnos ar ôl yr Hysbysiad Atal (Tachwedd/Rhagfyr 2016).	Fferyllydd Arwain	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Yr holl staff nyrsio i dderbyn copi o God Meddyginiaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (MM02.1). Anfonwyd hwn dros yr e-bost a chafwyd derbynebaw darllen.	Metron Nyrs Datblygu Ymarfer	Cwblhawyd
		<p>Drafft diwygiedig o God Meddyginiaethau'r bwrdd iechyd (MM02.1) i fynd i gyfarfod polisi a gweithdrefn mis Ionawr. Bydd y cod diwygiedig yn egluro'r safonau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yr amgylchiadau eithriadol pan allai gweithiwr cymorth gofal iechyd weithredu fel ail wiriwr ar gyfer cyffuriau a reolir. 2. Yr hyfforddiant, awdurdodiad a rheolaeth sydd eu hangen os caiff ailwrio ei ganiatáu gan weithwyr cymorth gofal iechyd mewn ardaloedd penodol. 	Fferyllydd Arwain	Ionawr 2017
17	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i gefnogi datblygiad y tîm a'i helpu i gael staff ychwanegol â hyfforddiant pediatrig arbenigol.</i>	Mae gan yr adran bencampwr a nodwyd ar gyfer Diogelu Plant a Hawliau Plant.	Metron	Cwblhawyd
		Gweithredu model goruchwyliaeth glinigol ar gyfer diogelu plant.	Nyrs Gyswllt Arbenigol ar gyfer Diogelu Plant	Sesiynau bob dau fis 30/03/2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rheolau e-amserlen i sicrhau bod aelod o staff wedi'i hyfforddi mewn Cynnal Bywyd Peditrig Uwch / Cynnal Bywyd Peditrig ar Unwaith ar gael ar bob sifft ac yn cael ei nodi'n amlwg ar ddechrau bob sifft gan arweinydd y sifft.	Y Nyrs â Gofal	01/04/2017
19	<p><i>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn y gofal cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol ac y caiff hynny ei nodi'n briodol yn y ddogfennaeth.</i></p> <p>Y meysydd penodol a arolygwyd yn cynnwys: Yr angen i sicrhau bod cydbwysedd hylif a glwcos gwaed mewn cleifion â diabetes yn cael eu monitro a chofnodi'n effeithiol, a bod yr holl gleifion sy'n derbyn gofal a meddyginiaeth yn cael eu hadnabod yn ddiogel ac mewn modd cadarnhaol.</p>	<p>Gweithredwyd Asesiad Unedig (wedi'i ddiwygio) ar draws holl adrannau damweiniau ac achosion brys y bwrdd iechyd.</p> <p>Bydd yr holl gleifion sy'n mynd i'r adran yn derbyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Asesiad cychwynnol o anghenion lefel uchel o fewn awr o gyrraedd gan nodi amllder rowndiau bwriadol yn eglur 2) Asesiad Unedig o angen wedi'i addasu o fewn pedair awr o gyrraedd 3) Asesiad llawn o anghenion unigol o fewn 12 awr o gyrraedd <p>Safonau diogel ar gyfer cadarnhau pwy yw'r cleifion i'w cynnwys ar bob lefel o asesiad.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio</p> <p>Y Nyrs â Gofal</p>	<p>30/03/2017</p> <p>30/03/2017</p>

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd y cyfarwyddwyr nyrsio cynorthwyol yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o rowndiau ansawdd yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys ar draws y bwrdd iechyd ac adrodd yn ôl i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Is-adran Gofal Eilaidd.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio	Chwarterol
		Metronau i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid i gynnwys monitro effeithiol o gydbwysedd hylif a glwcos gwaed mewn cleifion â diabetes, a nodi'n ddiogel yr holl gleifion sy'n derbyn gofal a meddyginiaeth gan adrodd yn ôl yn fisol i gyfarfod ansawdd a diogelwch Ysbyty Glan Clwyd.	Metron	Misol
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth			
20	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd ddelio'n brydlon â'r holl bryderon a chwynion a gweithredu'n effeithiol canllawiau Gweithio i Wella Cymru gyfan.</i>	Canolbwyntiwyd ar leihau'r nifer o gwynion oedd ar agor dros chwe mis gyda'r bwriad o beidio â chael unrhyw achosion agored dros chwe mis (oni bai ei fod y tu hwnt i reolaeth y bwrdd iechyd).	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Sefyllfa'r bwrdd iechyd ar ddiwedd Rhagfyr 2016 oedd bod cyfanswm o 24 cwyn ar agor dros chwe mis, ac roedd pob un ohonynt naill ai y tu hwnt i reolaeth y bwrdd iechyd neu'n debygol o'u cau ym mis Ionawr 2017.</p> <p>Nid oedd gan yr is-adran Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu a'r holl isadrannau rhanbarth achosion dros chwe mis.</p> <p>O hyn ymlaen, ni fydd unrhyw oddefgarwch i gwynion o dros chwe mis.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol</p>	<p>31/01/2017</p>
		<p>Mae'r canolbwyntio'n parhau ar yr achosion hynny sy'n aros dros dri mis i ddarparu lle ar gyfer atal cwynion rhag aros dros chwe mis (oni bai ei fod y tu hwnt i reolaeth y bwrdd iechyd).</p> <p>Mae'r Tîm Pryderon Corfforaethol yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rheini sy'n cwyno, pan fo'n bosib, ac yn cytuno ar faterion i'w hymchwilio, ac ymateb iddynt, gan gynnwys y rhain yn y llythyr cydnabyddiaeth.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol</p>	

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae'r Broses Bryderon yn cael ei hadolygu a'i diweddarau a chaiff ei hail-lansio ym mis Ionawr. Bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a rhaglen hyfforddiant yn cael eu datblygu i gefnogi gweithredu hyn a'r broses Gweithio i Wella.</p> <p>Mae hyfforddiant unigol ar gael i staff sy'n newydd i'r broses ymchwilio pryderon.</p> <p>Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Rheolwyr Ward Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, <i>Cenhedlaeth 2015</i>, bellach yn cynnwys sesiwn diwrnod llawn o ran delio â phryderon i wella amseroldeb ymchwiliadau a dysgu o brofiad y claf.</p> <p>Mae rheoli pryderon yn ffurfio rhan o raglen gynefino'r bwrdd iechyd ar gyfer staff newydd.</p> <p>Mae'r isadrannau yn adolygu a diwygio eu strwythurau llywodraethu i wella amseroldeb ymchwiliadau i bryderon.</p> <p>Bydd y mesurau a ddisgrifir uchod yr un mor berthnasol o ran rheoli digwyddiadau. At hynny,</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol</p>	<p>31/01/2017</p>

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>roedd capasiti ychwanegol (Tachwedd 2016 – Ionawr 2017) o fewn y tîm pryderon corfforaethol i ganolbwyntio ar gau digwyddiadau hwyr a adroddwyd i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Darperir gwybodaeth am ddigwyddiadau agored a adroddwyd bob mis i wasanaethau ac adrannau i helpu i wella perfformiad.</p> <p>Mae dangosyddion perfformiad allweddol lleol ar gyfer Timoedd Pryderon Corfforaethol ar waith ac yn cael eu monitro bob mis.</p> <p>Mae'r hierarchaethau Datix yn cael eu hadolygu a'u diweddarau i ganiatáu i ddigwyddiadau gael eu dosbarthu'n gywir ac yn brydlon.</p> <p>Bydd y Gwasanaeth Cyngor a Chefnogaeth i Gleifion (PASS) yn Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei roi ar waith (Gwanwyn 2017).</p>	<p>Pennaeth Risg a Sicrwydd</p> <p>Tîm Profiad y Claf</p>	<p>28/04/2017</p> <p>30/04/2017</p>
21	<i>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r staffio yn uned arsylwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i sicrhau bod anghenion</i>	Bydd y nyrs â gofal yn craffu'n ddyddiol ar lefelau staffio'r uned i sicrhau staffio diogel a chyfartal gan y nyrsys ar draws pob rhan o'r adran.	Y Nyrs â Gofal	Bob dydd

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>cleifion yn yr ardal hon yn cael eu diwallu bob amser.</i>	Craffu'n fisol ar yr e-amserlen i sicrhau cydymffurfiaeth o ran gwyliau blynyddol, absenoldeb astudio, absenoldeb salwch, amodau gwaith, ac oriau a gollwyd neu nas defnyddiwyd.	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth	Misol
		Cynnal adolygiad o gymysgedd sgiliau a meincnodi'r cymysgedd sgiliau yn erbyn dull aciwtedd arfer gorau y cytunwyd arno ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys i sicrhau bod y staff cywir ar gael, yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir. Rhoi gwasanaeth cadw tŷ ar waith saith diwrnod yr wythnos i sicrhau bod amser nyrsio craidd yn cael ei ryddhau drwy gynnal lefelau stoc graidd a darparu cymorth gydag atal a rheoli heintiau.	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth Metron	30/04/2017 01/04/2017

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras): Alison Griffiths

Teitl: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad: 23 Ionawr 2017